OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 1501 (Cy.175)

TAI, CYMRU

Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) (Dirymu) (Cymru) 2011

Gwnaed - - - -	*14 Mehefin 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*16 Mehefin 2011*
Yn dod i rym - -	*7 Gorffennaf 2011*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 2(2) a (4), 101 a 146(1) a (2) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996(**1**) ac adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**) ac a freinir bellach ynddynt hwy i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) (Dirymu) (Cymru) 2011, a deuant i rym ar 7 Gorffennaf 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dirymiadau

2. Dirymir yr offerynnau a restrir yng ngholofn 1 o'r tabl isod (sydd â'r cyfeirnodau a restrir yng ngholofn 2) i'r graddau a ddynodir yng ngholofn 3:

(**1**) 1996 p.53. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 2(2) a (4), 101 a 146(1) a (2), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); gweler y cofnod ar gyfer Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) mae'r swyddogaethau a oedd yn arferadwy gynt gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru. Gwnaed diwygiadau i Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) 1993 p.38. Roedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2(b) ac Atodlen 1, yn cyfarwyddo bod y pŵer yn adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn arferadwy, o ran Cymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38), yn gydredol ag unrhyw Weinidog y Goron yr oedd y pŵer hwnnw'n arferadwy ganddo. Trosglwyddwyd y pŵer o'r Cynulliad hwnnw i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

Colofn 1 *Offeryn a ddirymir*	*Colofn 2* *Cyfeirnod*	*Colofn 3* *Graddau'r dirymu*
Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) 1996	O.S. 1996/2891	O ran Cymru, yr offeryn cyfan
Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai a Chymorth Trwsio Cartrefi (Diwygio) 1996	O.S. 1996/3119	O ran Cymru, rheoliad 4
Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) (Diwygio) 1997	O.S. 1997/978	O ran Cymru, yr offeryn cyfan
Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) (Diwygio) 1998	O.S. 1998/809	O ran Cymru, yr offeryn cyfan
Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) (Ffurflenni a Manylion Cymraeg) 1998	O.S. 1998/1113	Yr offeryn cyfan
Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) (Diwygio) 1999	O.S. 1999/1607	O ran Cymru, yr offeryn cyfan
Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) (Ffurflen a Manylion Cymraeg) (Diwygio) 1999	O.S. 1999/2316	Yr offeryn cyfan
Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir) a (Ffurflen a Manylion Cymraeg) (Diwygio) (Cymru) 1999	O.S. 1999/3470 (Cy.56)	Yr offeryn cyfan
Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig a Ffurflen a Manylion Cymraeg) (Diwygio) (Cymru) 2000	O.S. 2000/1735 (Cy.119)	Yr offeryn cyfan
Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion a Ragnodir) (Diwygio) (Cymru) 2001	O.S. 2001/2071 (Cy.143)	Yr offeryn cyfan